Cymraeg mewn Ymarfer Proffesiynol 2

Welsh in Professional Practice 2

2025-26

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Peniarth .cymru | Rhagor iaith | CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG | WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

BA2 - Darlith 6

Dyma fe/ Dyma hi

Nod ac Amcanion

Aims and Objectives

CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

- Mae hi'n amser cofrestru!
- Dyma fe! / Dyma hi!

Mae hi'n amser cofrestru!

It's registration time!

Mae hi'n amser cofrestru!

Edrychwch arna i!

Look at me!

Eisteddwch, bawb!

Sit down, everyone!

Gwrandewch yn ofalus, blant!

Listen carefully, children!

Mae hi'n amser cofrestru!

Mae hi'n amser cofrestru!

Ydy ... yma heddiw?
Is ... here today?

Sut wyt ti heddiw?

Yma!
Here!

Absennol!
Absent!

Mae hi'n amser cofrestru!

Pwy sy'n absennol heddiw?

Lois **sy'n absennol heddiw!**

Mae hi'n amser cofrestru!

Wyt ti eisiau cinio
ysgol neu frechdanau?

Dw i eisiau
brechdanau, os
gwelwch yn dda.

Mae hi'n amser cofrestru!

Faint sy'n cael brechdanau heddiw?

Pump **sy'n cael brechdanau heddiw.**

Pa ddydd ydy hi heddiw?

Dydd Iau

ydy hi heddiw.

'Ydy' yn y cwestiwn = **'Ydy'** / **'Nac ydy'** yn yr ateb

Ydy hi'n ddydd Iau heddiw?

Ydy, mae hi'n ddydd Iau heddiw.

Nac ydy, dydy hi ddim yn ddydd Iau heddiw.

Pa fis ydy hi?

Mis Ionawr ydy hi.

'**Ydy**' yn y cwestiwn = '**Ydy**' / '**Nac ydy**' yn yr ateb

Ydy hi'n fis Ionawr?

Ydy, mae hi'n fis Ionawr.

Nac ydy, dydy hi ddim yn fis Ionawr.

Pa dymor ydy hi?

Tymor y Gaeaf ydy hi.

Beth ydy'r dyddiad heddiw?

Dydd Sul
Dydd Llun
Dydd Mawrth
Dydd Mercher
Dydd Iau
Dydd Gwener
Dydd Sadwrn

Ionawr
Chwefror
Mawrth
Ebrill
Mai
Mehefin
Gorffennaf
Awst
Medi
Hydref
Tachwedd
Rhagfyr

				1af y cyntaf	**2il** yr ail	**3ydd** y trydydd
4ydd y pedwerydd	**5ed** y pumed	**6ed** y chweched	**7fed** y seithfed	**8fed** yr wythfed	**9fed** y nawfed	**10fed** y degfed
11eg yr unfed ar ddeg	**12fed** y deuddegfed	**13eg** y trydydd ar ddeg	**14eg** y pedwerydd ar ddeg	**15fed** y pymthegfed	**16eg** yr unfed ar bymtheg	**17eg** yr ail ar bymtheg
18fed y deunawfed	**19eg** y pedwerydd ar bymtheg	**20fed** yr ugeinfed	**21ain** yr unfed ar hugain	**22ain** yr ail ar hugain	**23ain** y trydydd ar hugain	**24ain** y pedwerydd ar hugain
25ain y pumed ar hugain	**26ain** y chweched ar hugain	**27ain** y seithfed ar hugain	**28ain** yr wythfed ar hugain	**29ain** y nawfed ar hugain	**30ain** y degfed ar hugain	**31ain** yr unfed ar ddeg ar hugain

Dydd Iau, Ionawr y trydydd ar hugain.

Trafod y tywydd... *Discussing the weather...*

Sut **mae**'r tywydd heddiw?
Mae hi'n **w**yntog.

← **Amser Presennol**
Present Tense

Sut **oedd** y tywydd ddoe?
Roedd hi'n braf.

← **Amser Gorffennol**
Past tense

Sut **bydd** y tywydd yfory?
Bydd hi'n bwrw eira.

← **Amser Dyfodol**
Future Tense

Mae hi'n amser cofrestru!

1. *Greet the class*
2. *It's registration time!*
3. *Is ..... here today?*
4. *How are you?*
5. *The Date*
6. *The Weather (today, yesterday, tomorrow)*
7. *Likes / Dislikes*

Dyma fe!

This is him!

Pwy?!

fe *(him)*

fi *(me)*

hi *(her)*

WELSH LANGUAGE COMPETENCY FRAMEWORK FOR TEACHERS

Key:

Sabbatical Scheme assessment sheets
2022 Curriculum Literacy Framework progression steps
Cynllun Colegau Cymru
TCA/ WMiS assessment sheets

	A1 - ENTRY	
LISTENING	Can understand and respond to simple everyday sentences, related to the school setting, provided the other person speaks slowly.	• Can interact with learners, answer simple questions and offer simple feedback in the form of simple sentences or phrases • Can respond appropriately to learners as they develop their language skills, e.g. pronouncing simple, everyday words and phrases in Welsh.
SPEAKING	Can introduce himself/herself and others and can ask and answer questions about simple information, e.g. where someone lives, what they like doing. Is able to tell the time and use numbers.	• Can open and close the lesson using Welsh words and phrases with clear, Welsh pronunciation on the whole • Can present commands (ti/chi), questions and instructions to learners in a simple way.
READING	Can understand very short written texts where people offer simple personal information about themselves or others, e.g. on forms, school signage. Can read commands related to the school setting.	• Can read text satisfactorily, e.g. a simple story or game instructions using simple clauses and respond to content • Can use notes but is very dependent on them to teach the lesson.
WRITING	Can write simple, everyday sentence, related to the school setting, e.g. instructions, questions, commands, simple feedback.	• Can write simple sentences and patterns correctly on the white board to present information to learners • Can introduce basic written information within a framework, e.g. display information from the content of a book with one word answers or a multiple choice question.

	A2 - FOUNDATION	
LISTENING	Can understand and respond to a range of simple sentences related to school setting situations, e.g. everyday themes and different verb tenses.	• Can interact with learners, answer simple questions and offer extended feedback whilst discussing specific themes • Can demonstrate that they understand what they hear by asking relevant questions to obtain specific information and answer questions using the correct forms, *e.g. Ydy? Ydy/Nac ydy.*
SPEAKING	Can contribute to simple conversations using a range of simple sentences related to school setting situations, e.g. everyday themes and different verb tenses.	• Can open and close the lesson by setting aims and objectives, and summarise clearly for the learner with quite clear and meaningful pronunciation • Can present commands (*ti/chi*), questions and instructions fairly confidently for the learner by varying the use of the verb 'bod' and using the concise past tense fairly confidently whilst introducing Welsh across the curriculum • Can respond sensibly to learners' use of Welsh as a result of presenting directed tasks, by using language appropriate within structured situations.
READING	Can understand written everyday messages and simple letters/e-mail messages. Can read appropriate stories with an effort to ensure correct pronunciation.	• Can read text aloud effectively and discuss the text, identify the content's main points and express opinion in a simple way • Can use notes but is dependent on them to teach the lesson.
WRITING	Can write compound and complex sentences for educational purposes.	• Can present written feedback on tasks and convey information which demonstrates an increasing awareness of accuracy • Can use an increasing variety of different patterns and sentences, varying statements and questions, using the negative forms and emphatic sentence correctly and using standard verb forms, e.g. *gweld/gwelais, mynd/aeth*, and subject-verb agreement, e.g. *roeddwn i/ roedden ni.*

Agor y wers – Dyma fe! *Lesson openers – This is him!*

Croeso i'r wers Gymraeg.	Nod y wers heddiw ydy dysgu amdano fe.
Edrychwch arna i.	Heddiw rydych chi'n mynd i ddysgu amdano fe.
Gwrandewch arna i.	Barod?
Edrychwch ar y bwrdd gwyn / sgrîn.	Ydych chi'n barod?
Agorwch eich llyfrau.	Pawb yn hapus?
Ysgrifennwch y dyddiad.	Pawb yn barod?
Trowch i dudalen 5.	Oes cwestiwn?

Gofyn cwestiynau *Asking questions*

Fi *(me)*	**Fe** *(him)*
Beth ydy **dy** enw?	Beth ydy **ei** enw?
Pryd mae **dy** ben-blwydd?	Pryd mae **ei** ben-blwydd?
Pwy wyt **ti**?	Pwy ydy **e**?
Ble **rwyt ti**’n byw?	Ble **mae e**’n byw?
Faint ydy **dy** oed?	Faint ydy **ei** oed?
Beth ydy **dy** hobi?	Beth ydy **ei** hobi?
Beth **rwyt ti**’n hoffi …?	Beth **mae e**’n hoffi …?
Beth **dwyt ti ddim** yn hoffi?	Beth **dydy e ddim** yn hoffi?
Oes … gyda **ti**?	Oes … gyda **fe**?



Gofyn ac ateb cwestiynau *Asking and answering questions*

Cwestiwn	Ateb
Beth ydy **ei** enw?	**Ei** enw ydy.....
Pryd mae **ei** ben-blwydd?	Mae **ei** ben-blwydd ym mis .....
Pwy ydy **e**?	..... ydy **e.**
Ble **mae e**’n byw?	**Mae e**’n byw .....
Faint ydy **ei** oed?	**Mae e'n** ..... oed.
Beth ydy **ei** hobi?	**Ei** hobi ydy.....
Beth **mae e**’n hoffi ...?	**Mae e**’n hoffi .....
Beth **dydy e ddim** yn hoffi?	**Dydy e ddim** yn hoffi .....
Oes ... gyda **fe**?	Oes, mae..... gyda **fe**. Nac oes, does dim ..... gyda **fe**.

Pwy ydy e?

... ydy e.

Ble mae e'n byw?

Pen-y-bont	>	**Mae e'n** byw **ym Mh**en-y-bont.
Penant	>	**Mae e'n** byw **ym Mh**enant.
Tregaron	>	**Mae e'n** byw **yn Nh**regaron.
Talybont	>	**Mae e'n** byw **yn Nh**alybont.
Caerdydd	>	**Mae e'n** byw **yng Ngh**aerdydd.
Caernarfon	>	**Mae e'n** byw **yng Ngh**aernarfon.
Bangor	>	**Mae e'n** byw **ym M**angor.
Dol-y-bont	>	**Mae e'n** byw **yn N**ol-y-bont.
Gwynedd	>	**Mae e'n** byw **yng Ng**wynedd.

p	**>**	**mh**
t	**>**	**nh**
c	**>**	**ngh**
b	**>**	**m**
d	**>**	**n**
g	**>**	**ng**

'yn' + **place name** = **Treiglad Trwynol** *(Nasal Mutation)*

Ble mae e'n byw?

tŷ ar wahân

byngalo

tŷ teras

fflat

tŷ pâr

bwthyn

ffermdy

carafán

Ble mae e'n byw?

Dw i'n byw yng Ngheredigion
mewn tŷ ar wahân.

RHEOL

yn = lle penodol
(definite place)

mewn = lle amhenodol
(indefinite place)

Mae e'n byw yng Nghastell Nedd
mewn byngalo.

Faint ydy ei oed? *How old is he?*

Mae e'n 21 oed.

Beth ydy ei hobïau? *What are his hobbies?*

Ei hobïau ydy ...

His hobbies are ...

Beth ydy ei hobïau?





Ei hobïau ydy ...

Beth mae e'n hoffi wneud?

What does he like doing?

Mae e'n hoffi ...

He likes ...

Beth mae e'n hoffi wneud?





Mae e'n hoffi ...

Ydy e'n hoffi .....?

Does he like .....?

Ydy,
mae e'n hoffi .....

Nac ydy,
dydy e ddim yn hoffi .....

Ydy e'n hoffi ...?





Ydy, mae e'n hoffi ...

Nac ydy, dydy e ddim yn hoffi ...

Pam?!

Mae **e'n** hoffi

... **achos**...

mae'n hwyl.
mae'n ddiddorol.
mae'n fendigedig.
mae'n ffordd dda i ymlacio.
mae e'n hoffi cadw'n heini.
mae e'n hoffi ennill!
mae e'n gystadleuol.
mae e'n hoffi cael awyr iach.

Pam?!

Dydy e ddim yn hoffi

... **achos**...



mae'n ddiflas.
mae'n anodd.
dydy e ddim yn hoffi cadw'n heini.
dydy e ddim yn hoffi bod tu mewn.
dydy e ddim yn hoffi bod tu allan.
dydy e ddim yn hoffi colli.
dydy e ddim yn gystadleuol.

Pwy ydy e? Beth mae e’n hoffi?

Oliver ydy e. Mae e'n byw yng Nghaerdydd mewn tŷ semi.
Mae e’n hoffi chwarae rygbi achos mae e'n gystadleuol.

BETH ydy ei enw?

FAINT ydy ei oed?

BLE mae e'n byw?

Dyma fe!

BETH ydy ei hobi?

Ble?

Pryd?

Gyda phwy?

BETH mae e'n hoffi?

Pam?

BETH dydy e ddim yn hoffi?

Pam?

Dyma fe!

33



hobïau





hoffi





ddim yn hoffi



Dyma fe!

hoffi

hobïau

ddim yn hoffi

Oes ..... gyda fe?

Does he have .....?

Oes,
mae ..... gyda **fe**.

Nac oes,
does dim ..... gyda **fe**.

Oes ..... gyda fe?

Oes gwallt brown gyda **fe**?

Oes, mae gwallt brown gyda fe.

Oes ..... gyda <u>fe</u>?

Oes brawd gyda **<u>fe</u>**?

Nac oes, does dim brawd gyda <u>fe</u>.

Oes ... gyda fe?

gwallt *(hair)*	du	hir *(long)*
	brown	byr *(short)*
	sinsir *(ginger)*	syth *(straight)*
	golau *(light / blond)*	cyrliog *(curly)*
	tywyll *(dark)*	
llygaid *(eyes)*	mawr	glas
	bach	gwyrdd
		brown
croen *(skin)*	golau	**Oes, mae ... gyda fe.** **Nac oes, does dim ... gyda fe.**
	tywyll	
bochau *(cheeks)*	coch	
	pinc	

Oes ..... gyda fe?



Oes, mae ..... gyda fe.

Nac oes, does dim ..... gyda fe.

Oes ..... gyda fe?



Oes, mae ..... gyda fe.

Nac oes, does dim ..... gyda fe.

Oes ..... gyda fe?

mam	*mother*	**mab**	*son*	**ewythr**	*uncle*
llysfam	*stepmother*	**merch**	*daughter*	**wyr**	*grandson*
tad	*father*	**mab yngnghyfraith**	*son in law*	**wyres**	*granddaughter*
llysdad	*stepfather*	**merch yngnghyfraith**	*daughter in law*	**gŵr**	*husband*
brawd	*brother*	**cefnder**	*cousin (male)*	**gwraig**	*wife*
chwaer	*sister*	**cyfnither**	*cousin (female)*	**partner**	*partner*
rhieni	*parents*	**modryb**	*auntie*	**mam-gu**	*grandmother*
tad-cu	*grandfather*	**taid**	*grandfather (North Wales)*	**nain**	*Grandmother (North Wales)*

Ei basport

Enw:	Jac Rhys
Oed:	22
Pen-blwydd:	Mai 29
Cartref:	tŷ teras, Caerdydd
Hobïau:	darllen, chwarae pêl-droed, gwylio pêl-droed, rhedeg
Hoff fwyd:	bwyd Tsienïaidd
Cas fwyd:	siocled
Hoff bethau:	llyfrau ffeithiol, mynd ar wyliau
Cas bethau:	pobl anghwrtais, hufen iâ
Gwallt:	du, byr
Llygaid:	brown
Teulu:	mam, llysdad, gwraig
Brawd:	un brawd
Chwaer:	dwy chwaer
Anifail Anwes:	ci labradôr siocled (Ted)

Meddyliwch am gwestiynau i ofyn i'ch partner am Jac Rhys!

Tasg Ysgrifennu: Pwy ydy e?

Enw:	
Oed:	
Pen-blwydd:	
Cartref:	
Hobïau:	
Hoff fwyd:	
Cas fwyd:	
Hoff bethau:	
Cas bethau:	
Gwallt:	
Llygaid:	
Teulu:	
Brawd:	
Chwaer:	
Anifail Anwes:	

- **Creuwch basport newydd**
  Create a new passport
- **Ysgrifennwch 10 cwestiwn i'w gofyn am y pasport**
  Write 10 questions you could ask about the passport, e.g.
  Beth ydy ei enw?
  Ble mae e'n byw?
- **Ysgrifennwch yr atebion (mewn brawddegau llawn!)**
  Write the answers (in full sentences!)

Dyma hi!

This is her!

Gofyn cwestiynau *Asking questions*

Fi *(me)*	**Fe** *(him)*	**Hi** *(her)*
Beth ydy **dy** enw?	Beth ydy **ei** enw?	Beth ydy **ei h**enw?
Pryd mae **dy** ben-blwydd?	Pryd mae **ei** ben-blwydd?	Pryd mae **ei ph**en-blwydd?
Pwy wyt **ti**?	Pwy ydy **e**?	Pwy ydy **hi**?
Ble **rwyt ti**'n byw?	Ble **mae e**'n byw?	Ble **mae hi**'n byw?
Faint ydy **dy** oed?	Faint ydy **ei** oed?	Faint ydy **ei h**oed?
Beth **rwyt ti**'n hoffi …?	Beth **mae e**'n hoffi …?	Beth **mae hi**'n hoffi?
Beth **dwyt ti ddim** yn hoffi?	Beth **dydy e ddim** yn hoffi?	Beth **dydy hi ddim** yn hoffi?
Oes … gyda **ti**?	Oes … gyda **fe**?	Oes … gyda **hi**?



Gofyn ac ateb cwestiynau *Asking and answering questions*

Cwestiwn	Ateb
Beth ydy **ei h**enw?	**Ei h**enw ydy.....
Pryd mae **ei ph**en-blwydd?	Mae **ei ph**en-blwydd ym mis .....
Pwy ydy **hi**?	..... ydy **hi**.
Ble **mae hi**'n byw?	**Mae hi**'n byw .....
Faint ydy **ei h**oed?	**Mae hi'n** ..... oed.
Beth ydy **ei** hobi?	**Ei** hobi ydy.....
Beth **mae hi**'n hoffi...?	**Mae hi**'n hoffi .....
Beth **dydy hi ddim** yn hoffi?	**Dydy hi ddim** yn hoffi .....
Oes ... gyda **hi**?	Oes, mae..... gyda **hi**. Nac oes, does dim ..... gyda **hi**.



Pwy ydy hi?

... ydy hi.

Ble mae hi'n byw?

Dw i’n byw yng Ngheredigion mewn ty ar wahân.

Mae e'n byw yng Nghastell Nedd mewn byngalo.

RHEOL

yn = lle penodol *(definite place)*

mewn = lle amhenodol *(indefinite place)*

Mae hi'n byw ym Mhen-y-bont mewn fflat.

Faint ydy ei hoed? *How old is she?*



Mae hi'n 25 oed.

Beth ydy ei hobïau? *What are her hobbies?*



Ei hobïau ydy …

Her hobbies are …

Beth ydy ei hobïau?





Ei hobïau ydy ...

Beth mae hi'n hoffi wneud?

What does she like doing?



Mae hi'n hoffi ...

She likes ...

Beth mae hi'n hoffi wneud?





Mae hi'n hoffi ...

Ydy hi'n hoffi .....?

Does she like .....?

Ydy,
mae hi'n hoffi .....

Nac ydy,
dydy hi ddim yn hoffi .....

Ydy hi'n hoffi ...?





Ydy, mae hi'n hoffi ...

Nac ydy, dydy hi ddim yn hoffi ...

Pam?!

Mae **hi'n** hoffi

... **achos**...

mae'n hwyl.
mae'n ddiddorol.
mae'n fendigedig.
mae'n ffordd dda i ymlacio.
mae hi'n hoffi cadw'n heini.
mae hi'n hoffi ennill!
mae hi'n gystadleuol.
mae hi'n hoffi cael awyr iach.

Pam?!

Dydy hi ddim yn hoffi

... **achos**...



mae'n ddiflas.
mae'n anodd.
dydy hi ddim yn hoffi cadw'n heini.
dydy hi ddim yn hoffi bod tu mewn.
dydy hi ddim yn hoffi bod tu allan.
dydy hi ddim yn hoffi colli.
dydy hi ddim yn gystadleuol.

Pwy ydy hi? Beth mae hi’n hoffi?

Nerys ydy hi. Mae hi'n byw ym Mangor mewn tŷ teras. Mae hi’n hoffi canu achos mae'n hwyl.

BETH ydy ei henw?

FAINT ydy ei hoed?

BLE mae hi'n byw?

Dyma hi!

BETH ydy ei hobi?

BETH mae hi'n hoffi?

Ble?

Pryd?

Pam?

BETH dydy hi ddim yn hoffi?

Gyda phwy?

Pam?

46

Dyma hi!

hoffi

ddim yn hoffi

hobïau

Dyma hi!

hobïau

hoffi

ddim yn hoffi

Oes ..... gyda hi?

Does she have .....?

Oes,
mae ..... gyda **hi**.

Nac oes,
does dim ..... gyda **hi**.

Oes ..... gyda hi?

Oes gwallt brown gyda **hi**?

Oes, mae gwallt brown gyda hi.

Oes ..... gyda hi?

Oes brawd gyda **hi**?

Nac oes, does dim brawd gyda hi.

Oes ... gyda hi?

gwallt *(hair)*	du	hir *(long)*
	brown	byr *(short)*
	sinsir *(ginger)*	syth *(straight)*
	golau *(light / blond)*	cyrliog *(curly)*
	tywyll *(dark)*	
llygaid *(eyes)*	mawr	glas
	bach	gwyrdd
		brown
croen *(skin)*	golau	**Oes, mae ... gyda hi.**
	tywyll	
bochau *(cheeks)*	coch	**Nac oes, does dim ... gyda hi.**
	pinc	

Mae hi'n amser chwarae...

Bachgen neu ferch?

(Boy or girl?)

het *(hat)*

barf *(beard)*

sbectol *(glasses)*

clustdlysau *(earrings)*

mwstas *(moustache)*

Yn yr ysgol...

Ask the children to choose a character. Ask them to write 5 sentences to describe their character. In turns, give them the chance to read out their description (**YN GYMRAEG!**) while the others guess who it is.

Oes ..... gyda hi?



Oes, mae ..... gyda hi.

Nac oes, does dim ..... gyda hi.

Oes ..... gyda hi?



Oes, mae ..... gyda hi.

Nac oes, does dim ..... gyda hi.

Oes ….. gyda hi?

mam	*mother*	**mab**	*son*	**ewythr**	*uncle*
llysfam	*stepmother*	**merch**	*daughter*	**wyr**	*grandson*
tad	*father*	**mab yngnghyfraith**	*son in law*	**wyres**	*granddaughter*
llysdad	*stepfather*	**merch yngnghyfraith**	*daughter in law*	**gŵr**	*husband*
brawd	*brother*	**cefnder**	*cousin (male)*	**gwraig**	*wife*
chwaer	*sister*	**cyfnither**	*cousin (female)*	**partner**	*partner*
rhieni	*parents*	**modryb**	*auntie*	**mam-gu**	*grandmother*
tad-cu	*grandfather*	**taid**	*grandfather (North Wales)*	**nain**	*Grandmother (North Wales)*

Ei phasport

Enw:	Seren Lloyd
Oed:	18
Pen-blwydd:	Chwefror 5
Cartref:	tŷ ar wahân, Bangor
Hobïau:	gymnasteg, darllen, merlota
Hoff fwyd:	pitsa a sglodion
Cas fwyd:	ffa pôb
Hoff bethau:	cerddoriaeth, ffôn, llyfrau, tywydd braf
Cas bethau:	tywydd oer, helpu yn y tŷ, tacluso
Gwallt:	brown tywyll, cyrliog
Llygaid:	gwyrdd
Teulu:	Mam, Tad, Llysfam, Nain, Taid
Brawd:	dau frawd mawr
Chwaer:	nac oes
Anifail Anwes:	3 chi, 2 geffyl



Tasg Ddarllen 1: Pwy ydy pwy?



CWESTIWN	ATEB
1. Beth ydy enw Tad-cu?	
2. Pwy sy'n 75 oed?	
3.	Oes, mae chwaer fawr gyda fe.
4.	Mae Sara'n byw yng Nghaerfyrddin gyda'i theulu.
5. Oes chwaer gydag Eleri?	
6. Oes chwaer gyda Dafydd?	
7.	Fflwffen ydy enw'r gath.
8. Oes ci gyda Steffan?	

Tasg Ddarllen 2: Dyma hi!

- **Darllenwch y testun**
  Read the text

- **Meddyliwch am 10 cwestiwn i'w gofyn am y testun**
  Think of 10 suitable questions to ask about the text

- **Cofiwch ddefnyddio'r holl batrymau rydych chi wedi eu dysgu, e.e.**
  Pwy ...? Ble ...? Ydy ...? Oes ...? Sawl ...? Pryd ...?
  Remember to use a variety of language patterns that you have learnt

Dyma hi!

Dyma Elen Rees. Mae hi'n un deg pedwar oed ac mae hi'n dathlu ei phen-blwydd ar y deuddegfed o Hydref. Mae Elen yn byw yng Nghaerdydd gyda ei theulu. Mae hi'n byw mewn tŷ pâr. Mae hi'n byw gyda ei mam, ei llysdad a dau frawd bach. Mae ei brodyr yn efeilliaid. Mae Gethin a Guto yn wyth oed. Maen nhw'n dathlu pen-blwydd ar ddydd San Steffan. Mae Mam-gu Elen yn byw yn y tŷ drws nesaf. Mae Elen yn hoffi ei Mam-gu. Mae hi'n mynd i'r Ysgol Uwchradd. Mae llawer o ffrindiau gyda hi ond ei ffrind gorau ydy Carys. Mae hi'n hoffi gwersi Cymraeg, Saesneg a Ffrangeg achos mae hi'n hoffi ieithoedd. Dydy hi ddim yn hoffi Celf na Gwyddoniaeth achos maen nhw'n anodd. Yn ei amser hamdden, mae hi'n hoffi pob math o chwaraeon. Mae hi'n hoffi chwarae hoci i dîm yr ysgol. Mae hi'n hoffi nofio yn y Ganolfan Hamdden bob nos Fercher. Bob nos Wener, mae hi'n chwarae pêl-rwyd gyda ei ffrindiau. Mae hi'n hoffi gwylio tîm rygbi yn chwarae rygbi. Hefyd, mae hi'n hoffi gwylio *"I'm a Celebrity ...."* ar y teledu. Mae hi'n caru Ant a Dec. Ei hoff fwyd ydy cyri gyda reis a sglodion. Ei chas fwyd ydy cinio rhost achos dydy hi ddim yn hoffi bwyta llysiau. Ei hoff ddiod ydy sudd afal a mango. Dydy hi ddim yn hoffi yfed te na choffi – ych a fi! Ei hoff ddillad ydy dillad chwaraeon. Dydy hi ddim yn hoffi gwisgo gwisg ysgol. Ei hoff ffilm ydy *"Home Alone 2"* achos mae'n ddoniol iawn. Mae hi'n hoffi'r Nadolig, hefyd! Mae gwallt hir, syth, brown gyda hi. Mae llygaid brown tywyll gyda hi hefyd. Mae hi'n dal ac yn denau.

Tasg i’r Portffolio

Tasg Llafar 2: Sylfaen A2

(o’r Pecyn Cymorth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol)

Beth am gael sgwrs amdanoch chi'ch hun ac yna am berson arall gan ddefnyddio’r trydydd person?

Have a conversation about yourself then about another person using the third person patterns.



Gwaith gwych, bawb!

★

Hwyl fawr!